

**Cyfarwyddeb y Gymuned Ewropeaidd rhif 79/409 ar Warchod Adar Gwyllt
Disgrifiad ar gyfer newidiadau Arfaethedig i Ardal Gwarchodaeth Arbennig
(AGA)**

Enw: Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli / Aberdaron Coast and Bardsey Island

Siroedd/Awdurdodau Unedol: Mae'r AGA a'r estyniad arfaethedig o fewn neu'n gyfagos i Awdurdod Unedol Gwynedd ac mae'r rhan o'r safle sy'n wynebu'r môr yn gyfan gwbl o fewn dyfroedd tiriogaethol y DU.

Ffin yr AGA arfaethedig: Gweler map AGA arfaethedig. Mae'r safle arfaethedig yn gorwedd yn gyfan gwbl o fewn dyfroedd tiriogaethol y DU ac yn ymestyn bron at derfyn 6 milltir forol gydag oddeutu hanner y safle arfaethedig yn gorwedd o fewn y terfyn tair milltir forol. Mae'r estyniad morol arfaethedig yn dilyn y marc distyll cymedrig ar yr ymyl tua'r tir lle nad yw'n ffinio'r AGA (tirol) presennol. Mae'r safle newydd yn cynnwys yr ardaloedd tirol presennol sydd wedi'u dynodi fel Ardal Gwarchodaeth Arbennig Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli /Aberdaron Coast and Bardsey Island gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru ym mis Mehefin 1992 o dan Gyfarwyddeb yr UE 1979 ar Warchod Adar Gwyllt (79/409/EEC).

Mae ychydig dros hanner o'r estyniad morol arfaethedig yn gorwedd o fewn ACA Pen Llŷn a'r Sarnau / Lley Peninsula and the Sarnau, a ddynodwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Rhagfyr 2004 o dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd a Rhywogaethau'r UE 1992 (92/43/EEC). Mae'r AGA tirol presennol yn rhannol gyd-drawol gydag Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Clogwyni Pen Llŷn / Seacliffs of Lley.

Ni fwriedir i gynnwys unrhyw ardaloedd o dir ychwanegol yn yr AGA arfaethedig, heblaw am nifer fechan o greigiau brig arfordirol bychan iawn sy'n gorwedd o fewn yr estyniad arfaethedig 9 km gan na fyddai'n ymarferol i eithrio'r ardaloedd bychain hyn o ffin yr AGA diwygiedig posibl.

Maint yr AGA: Mae'r AGA presennol ac arfaethedig yn gorchuddio ardal o oddeutu 33,942ha.

Disgrifiad o'r Safle: Mae Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli / Aberdaron Coast and Bardsey Island wedi'i leoli ar ben pellaf Penrhyn Llŷn yng ngogledd-orllewin Cymru. Mae'r safle yn cynnwys Ynys Enlli/Bardsey Island a darn o arfordir cyfagos ynghyd â dwy ynys fechan: Ynysoedd y Gwylanod/ Gwylan Islands, yn ychwanegol at ardal o fôr sy'n ymestyn am oddeutu 9 km allan o Enlli. Mae'r arfordir yn greigiog, gyda llawer o greigiau a chlogwyni isel, bryniau grugog a dyffrynnoedd glaswelltog mewn tirwedd nodedig o gaeau bach a chloddiau. Mae'r safle'n cynnal poblogaeth o frain coesgoch sy'n dibynnu ar reolaeth dwysedd isel o borfeydd gyda'r gymysgfa hon o gynefinoedd. Mae gan Ynys Enlli nythfa fridio fawr o adar drycin Manaw sy'n chwilio am fwyd dros ardal eang o'r môr, ac yn ymgynnull ar ardaloedd cyfagos o'r môr ar gyfer nifer o weithgareddau hanfodol, er enghraifft trwsio'u plu, ymolchi, ac arddangos, cyn ceisio eu siwrnai peryglus at y nyth ar ôl iddi nosi.

Rhywogaethau cymhwysol: Mae'r safle yn gymwys o dan **erthygl 4.1** o'r Gyfarwyddeb (79/409/EEC) oherwydd iddo gael ei ddefnyddio'n rheolaidd gan 1% neu fwy o boblogaeth Prydain Fawr o'r rhywogaethau canlynol a restrir yn Atodiad I

yn ystod unrhyw dymor:

Rhywogaethau Atodiad I	Cyfrif a thymor	Cyfnod	% o boblogaeth PF
Brân goesgoch <i>Pyrhocorax pyrrhocorax</i> (bridio)	12 pâr	y cyfrif yn y 1990au hwyr	3.5%
Brân goesgoch <i>Pyrhocorax pyrrhocorax</i> (ddim yn bridio)	24 unigolyn	y cyfrif yn y 1990au hwyr	3.5%

Yn ogystal mae'r safle yn gymwys o dan **erthygl 4.2** o'r Gyfarwyddeb (79/409/EEC) oherwydd iddo gael ei ddefnyddio'n rheolaidd gan 1% neu fwy o boblogaeth fioddaeryddol o'r rhywogaethau mudol canlynol sy'n digwydd yn rheolaidd (ac eithrio'r rhai hynny a restrir yn Atodiad I) mewn unrhyw dymor:

Rhywogaeth fudol	Cyfrif a thymor	Cyfnod	% o isrywogaethau neu boblogaeth
Aderyn drycin Manaw <i>Puffinus puffinus</i> (bridio)	6,930 pâr	cyfrif, fel yn 1996	2.6%

DATA: Diweddarodd Adolygiad AGA 2001 (Stroud ac eraill, 2001) yr asesiad cynharach o Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig y DU a gyhoeddwyd yn 1992 yng ngolwg gwybodaeth newydd a bylchau posibl. Gofynnodd y Llywodraeth i'r Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) adolygu rhwydwaith AGA y DU ac argymhell rhestr bendant o safleoedd, wedi'u nodi yn erbyn canllawiau dethol eglur. Roedd hyn yn sefydlu gwaelodlin drwy'r DU yn erbyn yr hwn gellid asesu'r angen am newid yn y dyfodol. Mae'r data sy'n cael ei ddyfynnu uchod wedi'i gymryd o'r adolygiad hwn yn 2001 a oedd wedi'i seilio ar y data mwyaf diweddar a chynhwysfawr a oedd ar gael ar ddechrau'r adolygiad. Maen nhw'n darparu asesiad cymharol a gwaelodlin sefydlog, er bod data mwy diweddar wedi ymddangos ers hynny.

Prif ffynonellau data am adar:

ANON, 2005. **Developing the Chough SPA suite; report from the Chough subgroup.** Gweithgor Gwyddonol AGA a Ramsar, Mai 2005.

BROOKE, M. 1990. **The Manx shearwater.** T & AD Poyser, Academic Press Ltd. Llundain.

JOHNSTON, C.M., TURNBULL, C.G., REID, J.B. & WEBB, A. 2004. **Marine Natura 2000: Update on Progress in Marine Natura. Paper to the Joint Committee Meeting,** Mawrth 2004.

MCSORLEY, C.A., DEAN, B.J., WEBB, A. & REID, J.B. 2003. **Seabird use of waters adjacent to colonies: Implications for seaward extensions to existing seabird breeding colony SPAs.** Adroddiad gan y JNCC, rhif 329

MCSORLEY, C.A., WILSON L.J., DUNN, T.E., GRAY, C., DEAN, B.J., WEBB, A. & REID, J. B. 2008. **Manx shearwater *Puffinus puffinus* evening rafting behaviour around colonies on Skomer, Rum and Bardsey: its spatial extent and implications for recommending seaward boundary extensions to existing colony Special Protection Areas in the UK.** Adroddiad gan y JNCC, rhif 406.

REID, J.B. & WEBB, A. 2005. **Marine Natura 2000 – Recommendations for the extension of existing seabird (colony) Special Protection Areas into the marine environment.** Papur pwyllgor y JNCC 05 P14B.

RSPB (2009) **Chough Special Protection Areas in Wales: A report to the Countryside Council of Wales.** RSPB, Mai 2009.

STROUD, D.A., CHAMBERS, D., COOK, S., BUXTON, N., FRASER, B., CLEMENT, P., LEWIS, I., MCLEAN, I., BAKER, H. & WHITEHEAD, S. 2001. **The UK SPA network: its scope and content.** Cyfrolau 1-3. JNCC, Peterborough.

Cyfrol 1: Rationale for the selection of sites.

Cyfrol 2: Species accounts.

Cyfrol 3: Site accounts.